



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a chynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer dysgwyr a gefnogir ar hyn o bryd drwy'r cynlluniau Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Os yw'r darparydd yn amau bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gallai atgyfeirio'r plentyn hwnnw at yr awdurdod lleol. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY ac, os felly, yn sefydlu CDU.

Y Gymraeg

Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hynny yn y CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan blant a'u rhieni/gofalwyr yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY neu CDU.

Cod ADY gorfodol

Rhaid i ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar nas cynhelir sy'n derbyn cyllid oddi wrth awdurdod lleol roi sylw i'r canllawiau a nodir yn y Cod ADY.



Ystod oedran 0 hyd at 25

Trefniadau pontio gwell rhwng darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar ac ysgolion.

Diben Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar newydd mewn awdurdod lleol yw cyfrannu at yr amcan ehangach o wella'r broses o nodi ADY ac ymyrryd yn gynnar, a sicrhau gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Bydd gan y swyddogion arweiniol ran bwysig i'w chwarae o ran gwella'r broses o nodi anghenion lefel is yn gynnar, elfen nad yw o bosibl wedi'i nodi o dan y system bresennol, ac o ran atal ADY rhag datblygu; sefydlu llwybrau cyfeirio a chodi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid amlasiantaethol; a helpu i sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y sgiliau, y mecanweithiau a'r adnoddau i atal ADY rhag datblygu a chefnogi plant bach sydd ag ADY.

Mwy o gydweithredu

Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.